PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 6 CHWEFROR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Reid-Jones a/ac Taylor |

27 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay a Chris Lee.

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi’u derbyn.

29 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28/11/22 yn gofnod cywir yn amodol ar gynnwys ymddiheuriadau'r Cynghorydd Taylor.

30 : DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Gofynnodd yr Aelodau a ymgynghorwyd â'r actiwarïaid a chawsant wybod bod yr actiwarïaid wedi drafftio'r diwygiadau a awgrymwyd i'r Datganiad Strategaeth Ariannu (DSA) ond y cynhaliwyd yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid gan y Gronfa Pensiwn.

Nododd yr Aelodau’r mater o drin cyflogwyr gyda gwarged dros 110%.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo’r Datganiad Strategaeth Ariannu diwygiedig.

31 : DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y paragraff yn yr adroddiad ar y Newid yn yr Hinsawdd a gofynnon nhw a oedd gwerth hefyd gynnwys goblygiadau hawliau dynol. Cytunodd y Swyddogion ac esbonion nhw fod y ddogfen yn ymwneud â sbectrwm ACLl cyfan ac y gallent yn sicr gryfhau'r geiriad mewn unrhyw feysydd. Cytunodd y Cadeirydd y gallai ehangu ar yr ystod o bethau y mae ACLl yn eu cwmpasu, ac y gellid edrych ar hyn ochr yn ochr â chamau gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi diwygiedig, yn amodol ar adolygu'r adran sy'n ymwneud ag ACLl.

## 32 : ADOLYGU DATGANIAD CYDYMFFURFIAETH LLYWODRAETHU

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod hyn wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd Pensiynau Lleol ym mis Ionawr a'i fod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau yn y gorffennol, ac ychydig iawn o newidiadau a fu.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu.

## 33 : ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BOLISÏAU A STRATEGAETHAU'R GRONFA

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod hyn wedi cael ei weld gan y Bwrdd Pensiynau Lleol a oedd yn fodlon.

Nododd yr Aelodau fod y Polisi Cyfathrebu yn gynhwysfawr ond roeddent o'r farn y gallai ddweud mwy am bwrpas a gwerthoedd. Cytunodd y Swyddogion a dywedon nhw y gallai hyn gael ei gynnwys.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Polisi Cyfathrebu wedi'i ddiweddaru.

a) Communications Policy
b) Polisi Cwynion a Chanmoliaeth
c) Strategaeth Weinyddu

## 34 : COFRESTR RISGIAU

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau nad oedd wedi bod yn rhy hir ers iddynt weld y Gofrestr Risgiau a bod symudiad cyfyngedig wedi bod ers hynny.

Nododd yr Aelodau fod y Bwrdd Pensiynau Lleol wedi cymeradwyo'r gofrestr ac nad oedd wedi gofyn am unrhyw newidiadau pellach.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch McCloud ac a oedd unrhyw ymdeimlad o ba mor hir y byddai hyn yn cael effaith yn y byd pensiynau ac yn aros ar y Gofrestr Risgiau. Roedd y Swyddogion o'r farn y byddai'n ychydig eto gan eu bod yn dal i aros ar ddiweddariad meddalwedd i ddelio â'r achosion hanesyddol. Ar hyn o bryd mae gwaith glanhau data ar y gweill a phan fydd yn gyfredol, bydd yn fusnes fel arfer wrth symud ymlaen.

Trafododd yr Aelodau Oblygiadau Adnoddau ar gyfer y gronfa a nodon nhw fod heriau o ran recriwtio yn cael eu profi'n genedlaethol. Sicrhawyd yr Aelodau gan y

Swyddogion eu bod yn rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol o recriwtio gan gynnwys ail-ddrafftio hysbysebion i ddenu mwy o ymgeiswyr gweinyddol a thrwy ddefnyddio asiantaeth Fatrics ar gyfer proses recriwtio symlach. Wrth drafod a yw cyflogau'n briodol, roedd y Swyddogion o'r farn y gallai fod angen gwerthuso swyddi eto oherwydd y newid mewn rheoliadau a chymhlethdod cynyddol yn y maes pensiynau, ac i sicrhau bod y graddau'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd dulliau amgen o weinyddu'r gronfa wedi cael eu hystyried fel digideiddio neu uno'r swyddogaeth weinyddol ledled Cymru. Esboniodd y Swyddogion nad yw uno'r swyddogaeth wedi'i ystyried eto, pe bai'n cael ei ystyried, byddai'n ddull mwy tymor canolig i hirdymor. Mae'r ffocws wedi bod ar awtomeiddio a dull dewis digidol trwy Hunanwasanaeth i Aelodau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 30-40% o aelodau Caerdydd a'r Fro yn defnyddio'r Hunanwasanaeth i Aelodau ar hyn o bryd ac y byddai ymdrech barhaus i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyn ymhellach. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys y Gofrestr Risgiau.

## 35 : DIWEDDARIAD AR BARTNERIAETH PENSIWN CYMRU AC AR FUDDSODDIADAU

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Nododd yr Aelodau fod Robeco wedi cael ei benodi'n Gynghorwyr Ymgysylltu a Phleidleisio ac y byddant yn cynorthwyo PPC mewn meysydd fel llywodraethu corfforaethol ac arfer hawliau pleidleisio'r Bartneriaeth yn unol ag uchelgais y Partneriaeth i ddod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. Nododd yr Aelodau ymhellach fod Robeco yn gyflwynwyr rheolaidd yn Nghyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLl) PPC ond bob amser yn sesiynau caeedig cyfarfodydd y CBLl a bod Robeco wedi cynhyrchu adroddiadau cryno ar eu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu ar gyfer Ch4 2022. Gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiadau hyn gael eu rhannu gydag Aelodau'r Pwyllgor Pensiwn.

PENDERFYNWYD: Nodi'r datblygiadau diweddar sy'n gysylltiedig â Chronfa Fuddsoddi PPC a'r Prisiad bob tair blynedd o'r Gronfa bresennol ym Mawrth 2022

## 36 : HYFFORDDIANT PWYLLGOR PENSIWN

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Trafododd yr Aelodau bwysigrwydd hyfforddiant a chadw i fyny â materion yn yr hyn sy'n faes cymhleth iawn sy'n newid yn barhaus. Wrth drafod y dull gorau o hyfforddi, cytunodd yr Aelodau y dylai'r swyddogion drefnu hyfforddiant i'w gyflwyno ar ôl cyfarfodydd y pwyllgor er mwyn gwneud y defnydd gorau o amser. Gofynnodd yr Aelodau hefyd, os yw'n briodol, i hyfforddiant gydag actiwarïaid ac ymgynghorwyr gael ei drefnu.

PENDERFYNWYD nodi'r rhaglen hyfforddiant fewnol arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad.

37 : TARGED SERO NET Y GRONFA BENSIWN

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, sylwadau ac arsylwadau gan yr Aelodau.

Cefnogodd yr Aelodau y dulliau a amlinellwyd yn yr adroddiad gan y Swyddogion.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig bod y pwyllgor yn cael cyngor clir ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus gan fod cyfuno yn creu ei gyfres ei hun o gymhlethdodau oherwydd cronfeydd sy'n gosod eu targedau eu hunain. Ychwanegodd y byddai cydgyfeiriant gydag o leiaf rhai o'r cronfeydd eraill dros amser fel bod buddsoddiadau cyfun y mae cronfeydd yn cytuno i fynd i mewn iddynt gyda'i gilydd. Dywedodd y bydd hyn yn sythweledol i ddechrau gan fod pob un o’r cronfeydd penodol Gymreig yn gwneud darnau o waith sy'n dylanwadu ar yr hyn sy'n agor fel cyfleoedd i eraill.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r cofnodion adlewyrchu bod y Pwyllgor wedi dweud o'r blaen ei fod yn agored mewn egwyddor i ddadfuddsoddi o gwmnïau sy’n echdynnu tanwydd ffosil, sy'n wahanol i sero net a datgarboneiddio, ond hoffai'r pwyllgor i'r meysydd hyn gael eu harchwilio hefyd a gweld a oes map ffordd i ddilyn llwybr gyda mwy o eithriadau o bosibl. Ychwanegodd ei bod yn bosibl na fydd y cynhyrchion hyn ar gael pan dderbynnir y dystiolaeth a'r cyngor, neu os ydynt, gallai gwneud y math hwnnw o benderfyniadau buddsoddi fod yn beryglus iawn neu greu ansefydlogrwydd, fodd bynnag mae'r Pwyllgor wedi dweud ei fod am archwilio hyn ymhellach.

Mynegodd y Cadeirydd ei farn bersonol, wrth i Lywodraethau ledled y byd barhau i gymryd camau annigonol, fod nifer cynyddol o adroddiadau sy'n ei gwneud yn amlwg yn benodol na all disgwyliadau presennol echdynnu carbon barhau ac roedd y Cadeirydd o'r farn bod angen i'r gronfa baratoi ar gyfer y ffaith mai dyma'r dystiolaeth ddiamheuol ac y gallai penderfyniadau cyflymach gael eu gwneud yn y dyfodol wrth i Lywodraethau ddal i fyny â realiti’r hyn a ddywedir wrthynt nawr. Ychwanegodd y dylai'r gronfa fod yn paratoi ar gyfer datgarboneiddio ac mai'r diwydiant tanwydd ffosil yw'r un diwydiant sy'n sicr o beidio goroesi'r ganrif hon. Os yw bodau dynol yn mynd i oroesi yna mae angen dechrau paratoi ar gyfer hynny nawr neu mae risg o gael eich dal allan fel cronfa. Felly, tra'n cytuno y dylid cymryd camau ynghylch sero net, roedd am bwysleisio ymrwymiad sefydlog y pwyllgor i archwilio eithrio echdynnu tanwydd ffosil o fuddsoddiadau'r gronfa, yn amodol ar yr holl gyngor buddsoddi priodol yn cael ei geisio, ac i gynnwys archwilio'r cyngor hwnnw ochr yn ochr â'r targed sero net. Roedd am archwilio gyda Russell Investments i ddechrau i weld pa opsiynau sydd eisoes yn bodoli o ran y dull archwiliadol hwn a’r hyn mae hynny'n ei olygu o ran y dadansoddiad meincnodi y byddai angen i'r gronfa ei wneud i allu gwneud y penderfyniadau cywir.

Dywedodd y Swyddogion eu bod eisoes wedi gwneud Russell yn ymwybodol o safiad y Pwyllgorau a'r angen i wneud cynnydd cyflym. Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd i’r pwyllgor y byddent yn ystyried ei farn yn y darn hwn o waith.

PENDERFYNWYD: Nodi'r

1. Mentrau adrodd Newid yn yr Hinsawdd sydd wedi digwydd neu a fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

2. Cytuno i'r Swyddogion wneud ymchwil pellach i edrych ar daith i Sero Net ar gyfer y Gronfa.

Cytuno y gall Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor benderfynu ar bob agwedd ar y broses gaffael ar gyfer penodi cynghorwyr allanol arbenigol priodol (gan gynnwys cymeradwyo'r meini prawf gwerthuso i'w defnyddio ac awdurdodi dyfarnu'r contractau) a'r holl faterion ategol sy'n ymwneud â'r caffael a'r cynigion uchod.

## 38 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Nodwyd.

## 39 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD bod Eitem 8 yn gyfrinachol ac na chaiff ei chyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem hon yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

## 40 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd.

## 41 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 42 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15 Mai 2023.